Cytundeb Asiant Entrepreneuriaeth Ieuenctid

Mae rôl Asiantau Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn rôl bwysig a gwerthfawr sy'n hysbysu gwaith Syniadau Mawr Cymru a phartneriaid ehangach.

Mae'r cytundeb hwn yn dweud wrthych beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn rydyn ni'n ei obeithio gennych chi. Ein nod yw bod yn hyblyg, felly rhowch wybod i ni os oes angen cymorth ychwanegol arnoch er mwyn cymryd rhan a byddwn yn gwneud ein gorau i ddiwallu'ch anghenion.

Bydd Syniadau Mawr Cymru yn gwneud ein gorau:

- I barchu eich sgiliau, urddas a dymuniadau unigol a gwneud ein gorau i gwrdd â nhw.
- I ymgynghori â chi a'ch hysbysu am newidiadau posibl.
- I roi geirda (proffesiynol) i chi i'ch helpu chi yn y dyfodol.
- l'ch cysylltu chi â'r gymuned asiant entrepreneuriaeth ieuenctid a chreu cyfleoedd i chi ddysgu oddi wrth eich gilydd.
- I'ch helpu i fod y gorau y gallwch fod yn eich rôl fel asiant entrepreneuriaeth ieuenctid trwy fynediad at ystod o gyfleoedd datblygu.

Yn eich rôl fel Asiant Entrepreneuriaeth Ieuenctid byddwch yn gwneud eich gorau i:

- Fod yn ystyriol a pharchus o holl syniadau a barn cyfranogwyr
- Cefnogi aelodau o'r rhwydwaith Asiantau Entrepreneuriaeth Ieuenctid
- Perfformio'ch rôl yn ddibynadwy a hyd eithaf eich gallu
- Trin yr holl wybodaeth sy'n cael ei rhannu a'i thrafod yn gwbl gyfrinachol
- Rhoi cymaint o rybudd â phosib i ni os na allwch chi fynychu cyfarfodydd neu barhau i'ch ymrwymiad fel Asiant Entrepreneuriaeth Ieuenctid.

Nodyn: Mae'r cytundeb hwn ar sail anrhydedd yn unig ac ni fwriedir iddo fod yn gontract cyflogaeth sy'n rhwymo'n gyfreithiol.